YSGOL BRYNREFAIL

CADW PETHAU YN Y TEULU

Mae'r teulu Phillips o Benisarwaun sydd yn dathlu achlysur unigryw. Y mae nifer o deuluoedd wedi dathlu gweld brodyr yn chwarae pêl droed ond mae'n rhyfeddol gweld tri brawd yn chwarae i'r un tîm pêl droed. Ond dyna ydi hanes Gethin, Matthew a Siôn Phillips, gyda dyrchafiad Siôn, yr ieuengaf, o'r ail dîm i dîm cyntaf Clwb Pêl Droed Llanrug Unedig.
A beth sydd a hyn i gyd i wneud ag Ysgol Brynrefail? Wel mae Siôn yn aelod o'r chweched dosbarth bresennol ym Mrynrefail a'r ddau frawd yn gyn disgyblion, Gethin yn Prifysgol Bangor a Matthew erbyn hyn yn ennill ei damaid fel cemegydd.

Hogia' Brynrefs – da 'de